# CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT

**Oni nodir yn wahanol rhaid ateb pob cwestiwn. Defnyddiwch LYTHRENNAU BREISION**. Rhaid cyflwyno pob tudalen o'r ffurflen gais hon i'r Adran Drwyddedu.
Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad polisi ynghylch perthnasedd euogfarnau. Gallwch weld hwn ar www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx neu fel copi caled o'r Is-adran Drwyddedu. Dylech ddarllen y ddogfen hon cyn llenwi pob cais.

**Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg/This form is also available in English**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Gais** ticiwch fel sy'n berthnasol | | **Trwydded Newydd [ ]** | **Adnewyddu Trwydded [ ]** |
| **Trwydded 1 Flwyddyn** | [ ] | **Trwydded 3 Blynedd** | [ ] |

| | |
|---|---|
| **Cod Gwirio Gyrrwr y DVLA** | |
| Ysgrifennwch y cod yn y blwch **yn union** fel y'i gwelwch ar eich sgrin, neu fel y mae wedi'i nodi i chi gan y DVLA dros y ffôn gan sicrhau'r **defnydd cywir o brif lythrennau a llythrennau bach.** | |

**Adran 1 – Eich Manylion**

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn** | |
| **Prif Gyfeiriad Preswyl** | **Cod Post:** |
| **Dyddiad Geni** | |
| **Rhif Yswiriant Gwladol** | |
| | |

| | |
|---|---|
| **Enw a chyfeiriad y person neu'r Cwmni rydych yn bwriadu gweithio iddo** | |

**Adran 2 – Hawl i Weithio**

| | |
|---|---|
| **Gwlad Enedigol** | |
| **Cenedligrwydd** | |
| **A oes gennych hawl i breswylio'n gyfreithlon yn y DU?** | Ticiwch fel sy'n berthnasol<br>√ [ ] X [ ] |
| **A oes gennych hawl i weithio'n gyfreithlon yn y DU?** | Ticiwch fel sy'n berthnasol<br>√ [ ] X [ ] |
| Os gwnaethoch ateb 'oes' i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau uchod, yna cyflwynwch gopi o brif dudalen eich pasbort (sy'n dangos eich manylion a'ch cenedligrwydd) gyda'ch cais. Os nad oes gennych basbort, yna cyflwynwch ddogfen swyddogol arall sy'n cadarnhau eich Dinasyddiaeth Brydeinig neu UE.<br>Os gwnaethoch ateb 'nac oes' i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau uchod, yna bydd angen i'r Cyngor gael<br>Cod Rhannu Hawl i Weithio er mwyn asesu eich cymhwysedd i weithio yn y DU. Gellir cael cod rhannu hawl i weithio drwy fynd i'r wefan isod:<br>www.gov.uk/prove-right-to-work/get-a-share-code-online<br><br>Rhowch y cod rhannu isod; drwy roi'r cod rydych yn cydsynio i'r Cyngor gynnal gwiriad o'ch statws hawl i weithio. | |
| **Cod Rhannu Hawl i Weithio** | |

**Adran 3 – Trwydded Yrru DVLA –** TRWYDDEDAU NEWYDD YN UNIG, AR GYFER ADNEWYDDU TRWYDDEDAU, EWCH I ADRAN 4.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cawsoch drwydded yrru DVLA lawn** | |
| **Manylion unrhyw ardystiadau cyfredol neu ddisgwyliedig** | |

**Adran 4 – Euogfarnau**

**SYLWER: GALLAI METHU Â NODI <u>POB</u> EUOGFARN/RHYBUDD/HYSBYSIAD COSB ARWAIN AT ORFOD MYND I WRANDAWIAD PWYLLGOR LLE Y BYDD ANGEN RHOI ESBONIAD.**

**YMGEISWYR NEWYDD YN UNIG**

| | |
|---|---|
| Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 **yn ei wneud yn ofynnol i chi ddatgelu pob euogfarn, rhybudd, hysbysiad cosb benodedig a/neu hysbysiad cosb arall ni waeth a ystyrir eu bod wedi'u disbyddu neu beidio ac ni waith am oedran yr euogfarn.**<br><br>**Drwy ysgrifennu <u>DIM</u> rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw euogfarnau/rhybuddion/hysbysiadau cosb benodedig i'w datgan.** | **Sicrhewch eich bod wedi darllen y nodiadau yn y blwch atodedig cyn ateb.**Rhowch <u>unrhyw</u> euogfarnau yma. |

**YMGEISWYR ADNEWYDDU YN UNIG**

| | |
|---|---|
| A gawsoch eich rhybuddio/euogfarnu o unrhyw drosedd gyrru, unrhyw drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster, trais, diod neu gyffuriau neu a ydych wedi derbyn unrhyw Hysbysiadau Cosb Benodedig neu unrhyw fath o hysbysiad cosb **<u>ers eich cais diwethaf?</u>**<br><br>**Drwy ysgrifennu DIM rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw euogfarnau/rhybuddion/hysbysiadau cosb benodedig i'w datgan.** | **Sicrhewch eich bod wedi darllen y nodiadau yn y blwch atodedig cyn ateb.**Rhowch <u>unrhyw</u> euogfarnau yma. |
| **A fu unrhyw newid yn eich cyflwr meddygol ers eich cais diwethaf?**<br><br>**Os felly, nodwch fanylion.** | √ [ ] X [ ] |

**POB YMGEISYDD - ATEBWCH GYDA √ NEU X**

| | |
|---|---|
| A oes unrhyw achosion llys yn disgwyl yn eich erbyn? | √ [ ] X [ ]<br><br>Os felly, rhowch fanylion: |

| | |
|---|---|
| A oes gennych neu a fu gennych o'r blaen Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat a ddosbarthwyd gan yr awdurdod **hwn**?<br><br>. | √ [ ] X [ ]<br><br>Os felly, rhowch rif y drwydded/bathodyn a dyddiadau: |
| A oes gennych neu a fu gennych o'r blaen Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat a ddosbarthwyd gan **unrhyw awdurdod arall**? | √ [ ] X [ ]<br><br>Os felly, rhowch rif y drwydded/bathodyn, enw'r Awdurdod a dyddiadau: |
| A gafodd unrhyw Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat erioed ei hatal neu ei dirymu gan yr awdurdod hwn neu gan unrhyw awdurdod arall? | √ [ ] X [ ]<br><br>Os felly, rhowch fanylion: |

## Adran 5 – Gwiriadau Treth

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth yn rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.

**Dim ond os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol y mae'r adran hon yn berthnasol:**

- adnewyddu trwydded; neu
- wneud cais am yr un math o drwydded a oedd gennych yn flaenorol, a ddaeth i ben llai na blwyddyn yn ôl; neu
- wneud cais am yr un math o drwydded sydd gennych eisoes gydag awdurdod trwyddedu arall

**Gweler y datganiad isod.**

| **Cod Gwirio Treth** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Datganiad - Gwiriad Treth**
Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth yn rhan o geisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr cerbydau hurio preifat.
Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y canllaw gan CThEF ar gofrestru fy ngwiriad treth.
Drwy gyflwyno fy nghod gwirio treth gan CThEF rwy'n cydsynio i'r Cyngor gadarnhau gyda CThEF fy mod wedi cynnal gwiriad treth.

Rwy'n deall na fyddaf yn cael trwydded os na fyddaf yn cyflwyno cod gwirio treth.

## Adran 6 – Gwasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) (Adnewyddu yn Unig)

| | |
|---|---|
| A ydych chi'n tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y GDG ar hyn o bryd? | √ [ ] X [ ] |
| Os felly, a ydych chi'n cydsynio i'r Cyngor wirio'ch tystysgrif drwy'r Gwasanaeth Diweddaru fel rhan o'ch cais adnewyddu? | √ [ ] X [ ] |
| Os felly, yna rhowch rif eich tystysgrif Gwasanaeth Diweddaru: | |
| Os nad ydych yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r GDG, neu os nad ydych yn cydsynio i'r Cyngor<br>gynnal gwiriad o'ch tystysgrif, yna rhaid i chi gwblhau cais am<br>Dystysgrif Datgeliad Manwl newydd. **Bydd eich llythyr adnewyddu yn nodi a oes disgwyl i chi gael gwiriad GDG wrth adnewyddu a bydd yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais am eich Gwiriad GDG.** | |

**Adran 7 - Datganiadau**

**Rwy'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fy mod wedi datgelu pob Euogfarn, Rhybudd, Hysbysiad Cosb Benodedig, a/neu unrhyw Hysbysiad Cosb arall, ni waith a ystyrir eu bod wedi'u disbyddu ac ni waeth am oedran yr euogfarn. NEU os yn ymgeisydd adnewyddu, unrhyw ddatgeliadau ers fy nghais diwethaf.**

**Rwy'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod y wybodaeth uchod yn gywir. Rwy'n deall, os gwnaf ddatganiad ffug neu hepgoriad yn ymwybodol y byddaf yn agored i gael fy erlyn ac mae'n bosibl y caiff fy nhrwydded ei hatal neu ei dirymu.**

**Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd Gwiriadau Manwl/Safonol ar gyfer ymgeiswyr [https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies](https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies)**

**ac rwy'n deall sut y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn prosesu fy nata personol a'r opsiynau sydd ar gael i mi ar gyfer cyflwyno cais. Rwy'n deall y bydd y dystysgrif yn cael ei hanfon i'm cyfeiriad cartref ac mai fy nghyfrifoldeb i yw dod â'r un wreiddiol i'r Cyngor pan fyddaf yn ei derbyn. Bydd hyn yn berthnasol i'r holl geisiadau am drwyddedau newydd a rhai ceisiadau am adnewyddu trwyddedau pan fydd angen i ni weld y dystysgrif.**

**<u>Deddf Diogelu Data 2018 a Hysbysiad Preifatrwydd</u>**

**O ran Deddf Diogelu Data 2018, mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a gyflwynwch ar gyfer eich cais trwyddedu a'r data a gedwir o fewn yr awdurdod er mwyn atal a chanfod twyll. Pan fo angen, gall hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus a sefydliadau eraill at y dibenion hyn yn unig. Dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR, caniateir i ni ddefnyddio data ar gyfer ein tasgau.**

**Caiff unrhyw ddata a roddir gennych ar y ffurflen hon ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac, wrth ei roi, rydych yn cydsynio i Gyngor Caerdydd ei brosesu at y diben y'i rhoddwyd. Bydd yr holl wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol a dim ond at ddibenion a ganiateir gan y gyfraith y bydd y Cyngor yn ei defnyddio neu ei datgelu i eraill. Ewch i www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Public-Notices/Fair-Processing-Notice-Licensing-Welsh.pdf**

**NR3 Cofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau**

**Pan ddaw cais i law am drwydded, byddwn yn gwirio manylion yr ymgeisydd ar y gofrestr i gadarnhau nad oes unrhyw gofnod bod trwydded wedi'i dirymu neu ei gwrthod yn rhywle arall.**
**Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ychwanegu manylion sylfaenol am yrwyr pan fyddwn yn gwrthod cais neu'n dirymu eu trwydded. Cyfyngir y manylion sydd ar y gofrestr i wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod unigolyn i ryw raddau o gywirdeb. Nid yw'r gofrestr yn cynnwys unrhyw wybodaeth am pam y cafodd cais ei wrthod neu pam y cafodd trwydded ei dirymu. Mae mwy o wybodaeth yma: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Licensing/National-Register-of-Taxi-Licence-Revocations-and-Refusals-NR3-Policy-Welsh.pdf**

**Adran 8 - Llofnod**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | **Enw mewn Priflythrennau** | |
| **Rhif Ffôn Llinell Dir** | | **Rhif Ffôn Symudol** | |
| **Cyfeiriad E-bost** | | **Dyddiad** | |

Mae angen i bob ymgeisydd:

Gyflwyno gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn perthynas â'i gais cyntaf a phob tair blynedd ar ôl hynny.

Cyflwyno tystysgrif feddygol (yn ofynnol os yn gwneud cais am y tro cyntaf neu'n adnewyddu'r drwydded ar ôl ei ben-blwydd yn 45, 50, 55, 60 neu 65 oed, ac yna bob blwyddyn ar ôl troi'n 65 oed) wedi'i llofnodi gan feddyg teulu cofrestredig gan nodi eich bod yn ddigon ffit yn gorfforol i fod yn yrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat. Dylech roi gwybod i'ch meddyg teulu fod yr awdurdod hwn yn ei wneud yn ofynnol i yrwyr tacsi fodloni safon ffitrwydd Grŵp 2 y DVLA. Mae angen i chi dalu cost unrhyw dystysgrif neu arholiad.

Cyflwyno ei drwydded yrru DVLA er mwyn ei harchwilio. Ni chaiff unrhyw drwydded yrru ei chyhoeddi heb brawf o drwydded DVLA gyfredol. Rhaid i'r drwydded ddangos yr un cyfeiriad ag y rhoddir yn y ffurflen gais. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr roi awdurdodaeth 'Cod Gwirio' y DVLA i'r Cyngor gael mynediad at eu cofnod gyrru.

Ar bob cais rhaid cynnal gwiriad hawl i weithio â llaw (drwy apwyntiad).

**Ar gyfer dinasyddion y DU:** Gallwch ddefnyddio eich pasbort (cyfredol neu wedi dod i ben). Os nad oes gennych basbort, yna bydd angen eich Tystysgrif Geni LAWN arnom **A** dogfen sy'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol.
**Ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddinasyddion y DU:** Mae angen i ni wneud gwiriad gweledol i sicrhau bod y llun sydd gennym ar ffeil o'ch statws Hawl i Weithio ar-lein yn cyfateb i'ch hunaniaeth yn bersonol.

Pasio Prawf Gwybodaeth cyn rhoi'r drwydded am y tro cyntaf.
Ar gyfer unrhyw ymholiadau, e-bostiwch yr Adran Drwyddedu trwy licensing@valeofglamorgan.gov.uk neu ffoniwch 0300 123 6696.